Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

16 January 2023

Dear Parent/Guardian

**The redevelopment of Cantonian High School, Riverbank Special School and Woodlands High School**

We wrote to you previously regarding proposals to

- Increase the capacity of Cantonian High from 6 forms of entry (6FE) to eight forms of entry (8FE) with sixth form provision for up to 250 pupils in new build accommodation

- Expand the Specialist Resource Base (SRB) for learners with an Autism Spectrum Condition (ASC), hosted at Cantonian High School from 20 to 30 places in purpose-built accommodation in the new school buildings

- Transfer Woodlands Special School to the Doyle Avenue site and increase the capacity from 140 places to 240 places in new build accommodation

- Transfer Riverbank Special School to the Doyle Avenue site and increase the capacity from 70 to 112 places in new build accommodation

The proposals were agreed by the Welsh Ministers in July 2020 for implementation in September 2023. However, the impact of the Covid-19 pandemic combined with operational issues, and optimisation of the site configuration and building design to benefit learners, have had a significant impact on the progression of the proposals which has resulted in a delay to the planned works.

The Council has worked closely with the project's contractor to identify a new programme of work which would allow for the completion of the buildings and occupation from September 2025.

The Council has also sought the permission of the Welsh Minister to delay the full implementation of the proposed changes from 1 September 2023 to September 2026 which has been agreed.

To ensure the provision of sufficient suitable mainstream places and Additional Learning Needs places in the interim period, a range of temporary measures at Cantonian High School, Woodlands High School and Riverbank Special School have been identified and are being implemented as follows:

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI
Mae'r Cygnor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU
The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

- intakes to Cantonian High School to increase from 6 forms of entry (180 pupils per year group) to 7 forms of entry (210 pupils), from September 2023, ahead of the permanent expansion to 8 forms of entry when works are complete in 2025/2026;
- the capacity of Woodlands High School to increase from 140 places to 180 places in September 2023, ahead of the permanent expansion to 240 places when works are complete and the school transfers to its new build accommodation on the Fairwater Campus site; the additional places to be provided through the use of new temporary accommodation on the existing school site
- the capacity of Riverbank Special School to increase from 70 places to 78 places in September 2023, ahead of the permanent expansion to 112 places when works are complete and the school transfers to its new build accommodation on the Fairwater Campus site; the additional places to be provided through the use of new temporary accommodation on the existing school site.

The above arrangements will ensure the provision of sufficient, suitable classroom and ancillary accommodation for pupils who may otherwise have enrolled at Cantonian High School or would have required a specialist primary or secondary age placement for complex learning needs during the transition period between 2023/2024 and 2025/2026.

The designated number of places at the Cantonian High School Special Resource Base for learners with an Autism Spectrum Condition (ASC) will increase from 20 places to 30 places in September 2023 as per the Welsh Government approved proposal.

The Council has also progressed a number of other projects to ensure that there are sufficient mainstream secondary school places to serve the local community of Cantonian High School, and to ensure sufficient places for learners who may otherwise have been enrolled at the city-wide specialist provision of Woodlands High School and Riverbank Special School.

The Council wishes to see the benefits of the proposal including allowing for a greater number of pupils to benefit from the education on offer at the schools to be realised as soon as possible and the changes outlined above will facilitate this.

You can keep up to date with progress on the proposals at www.cardiffnewsroom.co.uk including information on the current pre-application consultation that seeks views to be considered before a planning application is submitted to Cardiff Council's Planning Committee.

If you have any queries or require additional information, please contact the School Organisation Planning Team via e-mail to schoolresponses@cardiff.gov.uk or on 029 2087 2720.

Yours faithfully

Brett Andrewartha
**School Organisation Programme Planning Manager**

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

16 Ionawr 2023

Annwyl Rhiant/Gwarcheidwad

**Ailddatblygu Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands**

Ysgrifennom atoch o'r blaen ynglŷn â'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion i:

- Gynyddu'r ddarpariaeth yn Ysgol Uwchradd Cantonian o 6 dosbarth mynediad (6DM) i wyth dosbarth mynediad (8DM) gyda darpariaeth chweched dosbarth ar gyfer hyd at 250 o ddisgyblion mewn adeiladau newydd

- Ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) i ddysgwyr sydd â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistig (CSA) yn Ysgol Uwchradd Cantonian o 20 i 30 lle mewn llety pwrpasol yn adeiladau newydd yr ysgol;

- Trosglwyddo Ysgol Arbennig Woodlands i'r safle ar Rodfa Doyle a chynyddu nifer y lleoedd o 140 i 240 yn yr adeiladau newydd

- Trosglwyddo Ysgol Arbennig Riverbank i'r safle ar Rodfa Doyle a chynyddu nifer y lleoedd o 70 i 112 yn yr adeiladau newydd

Cytunwyd ar y cynigion gan Weinidogion Cymru ym mis Gorffennaf 2020 i'w gweithredu ym mis Medi 2023. Fodd bynnag, mae effaith pandemig Covid-19 ynghyd â materion gweithredol, ac optimeiddio cyfluniad y safle a'r dyluniad adeiladu er budd dysgwyr, wedi cael effaith sylweddol ar weld y cynigion yn mynd rhagddynt sydd wedi arwain at oedi i'r gwaith arfaethedig.

Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda chontractwr y prosiect i nodi rhaglen waith newydd fyddai'n caniatáu cwblhau'r adeiladau a'i feddiannu o fis Medi 2025 ymlaen.

Mae'r Cyngor hefyd wedi gofyn am ganiatâd Gweinidog Cymru i ohirio gweithredu'r newidiadau arfaethedig yn llawn o 1 Medi 2023 i fis Medi 2026 a chytunwyd ar hynny.

Er mwyn sicrhau darpariaeth digon o lefydd prif ffrwd addas a lleoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y cyfnod dros dro, nodwyd ystod o fesurau dros dro yn Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Uwchradd Woodlands ac Ysgol Arbennig Riverbank ac maent yn cael eu gweithredu fel a ganlyn:

- niferoedd i Ysgol Uwchradd Cantonian i gynyddu o 6 dosbarth mynediad (180 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn) i 7 dosbarth mynediad (210 disgybl), o fis Medi

2023, cyn yr ehangu parhaol i 8 dosbarth mynediad pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau yn 2025/2026;

- capasiti Ysgol Uwchradd Woodlands i gynyddu o 140 o lefydd i 180 o lefydd ym mis Medi 2023, cyn yr ehangu parhaol i 240 o lefydd pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, a'r ysgol yn trosglwyddo i'w hadeiladau newydd ar safle Campws Tyllgoed; y llefydd ychwanegol i'w darparu trwy ddefnyddio llety dros dro newydd ar safle presennol yr ysgol
- capasiti Ysgol Arbennig Riverbank i gynyddu o 70 o lefydd i 78 o lefydd ym mis Medi 2023, cyn yr ehangu parhaol i 112 o lefydd pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, a'r ysgol yn trosglwyddo i'w hadeiladau newydd ar safle Campws y Tyllgoed; y llefydd ychwanegol i'w darparu trwy ddefnyddio llety dros dro newydd ar safle presennol yr ysgol.

Bydd y trefniadau uchod yn sicrhau darpariaeth ddigonol o ystafelloedd dosbarth, addas a llety ategol ar gyfer disgyblion a allai fod wedi cofrestru fel arall yn Ysgol Uwchradd Cantonian neu a fyddai wedi gofyn am leoliad oedran cynradd neu uwchradd arbenigol ar gyfer anghenion dysgu cymhleth yn ystod y cyfnod pontio rhwng 2023/2024 a 2025/2026.

Bydd y nifer dynodedig o lefydd yng Nghanolfan Adnoddau Arbennig Ysgol Uwchradd Cantonian ar gyfer dysgwyr sydd â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth (CSA) yn cynyddu o 20 lle i 30 lle ym mis Medi 2023 yn unol â'r cynnig a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor hefyd wedi symud ymlaen â nifer o brosiectau eraill i sicrhau bod digon o lefydd ysgol uwchradd prif ffrwd i wasanaethu cymuned leol Ysgol Uwchradd Cantonian, ac i sicrhau digon o lefydd i ddysgwyr a allai fod wedi'u cofrestru fel arall yn y ddarpariaeth arbenigol i'r ddinas yn Ysgol Uwchradd Woodlands ac Ysgol Arbennig Riverbank.

Mae'r Cyngor yn dymuno gweld manteision y cynnig gan gynnwys caniatáu i nifer fwy o ddisgyblion elwa o'r addysg a gynigir yn yr ysgolion gael eu gwireddu cyn gynted â phosibl a bydd y newidiadau a amlinellir uchod yn hwyluso hyn.

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion yn www.newyddioncaerdydd.co.uk gan gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad cyn gwneud cais presennol sy'n ceisio barn i'w hystyried cyn cyflwyno cais cynllunio i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Caerdydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion trwy e-bost i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu ar 029 2087 2720.

Yn gywir

Brett Andrewartha
**Rheolwr Cynllunio'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion**